



Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu: Cymru

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi:

6 Awst 2015

Cyflwyniad

Dyma ddegfed adolygiad blynyddol Ofcom o'r farchnad gyfathrebu yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg manwl o wasanaethau cyfathrebu ar draws y wlad ac yn monitro patrymau allweddol o ran y gwasanaethau cyfathrebu sydd ar gael ledled Cymru a'r nifer sy'n eu defnyddio.

Mae adroddiad eleni yn cynnwys data ymchwil a gomisiynwyd oddi wrth Arolwg Poblogaeth Prydain sy'n archwilio'r defnydd o wasanaethau cyfathrebu ar lefel fanylach yn Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam.

Er bod unigolion yng Nghymru yn parhau i wyllo cryn dipyn yn fwy o deledu ar gyfartaledd na phoblogaeth y DU drwyddi draw, cafwyd 12 munud o ostyngiad yn yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn gwyllo teledu yn 2014.

Cynyddodd y BBC ac ITV eu gwariant yng nghyswllt darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni'r gwledydd nad oeddynt yn rhaglenni rhwydwaith yng Nghymru 6% mewn termau nominal i £27.2m yn 2014. Roedd cyfanswm gwariant y BBC ac ITV Cymru/Wales ar raglenni materion cyfoes ar gyfer pobl yng Nghymru wedi codi 16% a chododd y gwariant ar raglenni newyddion 15%. Gostyngodd y gwariant ar raglenni nad oeddynt yn rhaglenni newyddion 2% yn 2014.

Er y cynnydd 2% yn y cynnyrch gwreiddiol a oedd yn cael ei ddarlledu am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, mae'r oriau o gynnyrch gwreiddiol a ddarlledir am y tro cyntaf yng Nghymru wedi gostwng 9% (943 awr) ers 2009 - y gostyngiad mwyaf o blith holl wledydd y DU. Roedd gwariant S4C ar raglenni a gomisiynwyd i'w dangos am y tro cyntaf wedi aros yn sefydlog ar £63m.

O ran radio, gan Gymru o hyd y mae'r gyfran uchaf (59%) o bobl sy'n gwrandao ar wasanaethau'r BBC a'r gyfran isaf o bobl sy'n gwrandao ar radio masnachol lleol (26%). Nid yw canran y nifer sy'n berchen ar radio DAB wedi newid, sef 47%. Ond yng Nghymru y gwelwyd y twf uchaf o un flwyddyn i'r llall yn y nifer sy'n gwrandao ar radio digidol, sef 3 phwynt canran o dwf.

Mae bron i naw o bob deg cartref yng Nghymru bellach yn defnyddio'r rhyngwyd, ac mae band eang cyflym iawn ar gael yn awr i 79% o eiddo yng Nghymru, y ganran uchaf yn y gwledydd datganoledig. Mae'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau band eang (sefydlog a symudol) yn awr yn debyg i gyfartaledd y DU (78%) ac yn uwch nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar ben ein hasesiad blynyddol o wasanaethau clyweledol, telegyfathrebu a gwasanaethau post, mae'r *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu* ar gyfer Cymru 2015 yn dadansoddi defnydd y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg o ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn llawer mwy tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â llinell sefydlog gartref ac yn llawer llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngwyd.

Yn olaf, dywed 62% o sefydliadau yng Nghymru eu bod wedi newid rhai o'u dulliau cyfathrebu o'r post i ddull arall yn ystod y 12 mis diwethaf; mae hyn yn unol â chyfartaledd y DU.

Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli unrhyw gynnig na chasgliad gan Ofcom mewn perthynas â diffiniad o'r marchnadoedd heddiw nac yn y dyfodol. Nid yw chwaith yn cynrychioli unrhyw gynnig na chasgliad am yr asesiad o bŵer sylweddol yn y

farchnad at ddibenion Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Cystadleuaeth 1998 nac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Mae'r gyfres lawn o ddata a siartiau ar gael mewn adnodd y gellir ei chwilio, sydd ar gael yn www.ofcom.org.uk/cmrwales. Mae adroddiadau ategol ar gyfer y DU a phob un o'r gwledydd ar gael yn www.ofcom.org.uk/cmr.

Cynnwys

Cyflwyniad	1	
Gosod y cyd-destun	4	
1	Y farchnad gyfathrebu yng Nghymru	5
1.1	Prif ganfyddiadau yng Nghymru	5
1.2	Cyfathrebu cymdeithasol ar-lein	12
1.3	Rhwydweithio cymdeithasol	18
1.4	Newidiadau yn y defnydd o wasanaethau clyweledol yng Nghymru	22
1.5	Dadansoddiad o wasanaethau cyfathrebu yn Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam	28
1.6	Y niferoedd sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu allweddol ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg	34
2	Teledu a chynnwys clyweledol	37
2.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	37
2.2	Gwyllo teledu digidol yng Nghymru	40
2.3	Cynnwys teledu wedi'i ddarlledu	44
2.4	Rhaglenni teledu ar gyfer gwylwyr yng Nghymru	50
2.5	Lefelau cydymffurfio â chwotâu teledu'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus	55
2.6	Rhaglenni Cymraeg	57
3	Radio a chynnwys sain	60
3.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	60
3.2	Argaeledd gwasanaethau radio	61
3.3	Darpariaeth DAB	61
3.4	Patrymau gwrando ar gynnwys sain	62
3.5	Y nifer sy'n gwrando ac yn berchen ar setiau radio digidol	64
3.6	Y diwydiant radio	66
4	Gwasanaethau telegyfathrebu a rhwydweithiau	67
4.1	Datblygiadau diweddar yng Nghymru	67
4.2	Argaeledd gwasanaethau band eang sefydlog	70
4.3	Darpariaeth rhwydwaith symudol	75
4.4	Y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau	78
4.5	Bodlonrwydd ar wasanaethau telegyfathrebu	84
5	Y rhyngrwyd a chynnwys ar y we	86
5.1	Y nifer sy'n defnyddio'r rhyngrwyd	86
5.2	Dyfeisiau sy'n gallu defnyddio'r rhyngrwyd	87
5.3	Defnyddio'r rhyngrwyd	89
6	Post	92
6.1	Anfon post: cwsmeriaid preswyl	92
6.2	Derbyn post: cwsmeriaid preswyl	94
6.3	Agweddau at y Post Brenhinol	95
6.4	Anfon a derbyn post: cwsmeriaid busnes	97

Gosod y cyd-destun

Ffeithiau allweddol am Gymru

Ffigur	Cymru	Y DU
Poblogaeth	3.082 miliwn (rhagamcan canol 2013)	64.106 miliwn (rhagamcan canol 2013)
Proffil oed	Poblogaeth 16 oed ac iau: 18.0% Poblogaeth 65 oed a hŷn: 19.5%	Poblogaeth 16 oed ac iau: 18.8% Poblogaeth 65 oed a hŷn: 17.4%
Dwysedd poblogaeth	148 person y cilometr sgwâr	263 person y cilometr sgwâr
Iaith	Gall 18.6% o'r boblogaeth siarad Cymraeg	amh.
Diweithdra	6.7% o'r boblogaeth economaidd weithgar, 16 oed a hŷn	5.5% o'r boblogaeth economaidd weithgar, 16 oed a hŷn
Incwm a gwariant	Incwm wythnosol cartrefi: £618 Gwariant wythnosol cartrefi: £439	Incwm wythnosol cartrefi: £724 Gwariant wythnosol cartrefi: £497

Ffynhonnell: y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Population Estimates for UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland, Canol 2013; y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Regional Labour Market, Mai 2015; y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Family Spending, rhifyn 2014; y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Cyfrifiad 2011, Ystadegau Allweddol ar gyfer Awdurdodau Unedol yng Nghymru.

Nodyn am ein hymchwil arolwg

Cynhalion ni arolwg wyneb yn wyneb â 3,756 o ymatebwyr 16 oed a hŷn yn y DU, gan gynnwys 496 o gyfweiliadau yng Nghymru. Gosodwyd cwtâu a defnyddiwyd pwysiadau er mwyn sicrhau bod y sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru o ran oed, rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol a lleoliad daearyddol. Cafodd y gwaith maes ei gynnal yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2015.

Cafodd yr ymatebwyr eu diffinio fel ymatebwyr trefol os oeddent yn byw mewn anheddiad gyda phoblogaeth o 2000 neu fwy, ac yn ymatebwyr gwledig os oeddent yn byw mewn ardaloedd gyda phoblogaeth lai. Mae gan sampl yr arolwg yng Nghymru led gwall o ryw +/- 3-6% ar y lefel hyder 95%. Mewn ardaloedd trefol a gwledig, mae lled y gwall oddeutu +/- 4-7%.

Yn ogystal â data'r arolwg, mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill, gan gynnwys data a roddwyd i Ofcom gan randdeiliaid. Caiff tablau sy'n crynhoi'r data a gasglwyd yn ein harolwg eu cyhoeddi ar wefan Ofcom.

1 Y farchnad gyfathrebu yng Nghymru

1.1 Prif ganfyddiadau yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi detholiad o'r prif ffeithiau a ffigurau sy'n ymwneud â'r marchnadoedd cyfathrebu yng Nghymru yn 2014¹, gan gymharu a gwahaniaethu rhwng y gwledydd a chan dynnu sylw at y newidiadau sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Prif ganfyddiadau yng Nghymru

Newidiadau yn y defnydd o wasanaethau clyweledol yng Nghymru

- **Ar gyfartaledd, gwylodd pobl yng Nghymru 12 munud yn llai y diwrnod o deledu wedi'i ddarlledu yn 2014 nag yn 2013** Roedd y gostyngiad yn y teledu wedi'i ddarlledu sy'n cael ei wyllo yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr² (9 munud y dydd), yr Alban (7 munud y dydd) a (rhwydwaith) y DU drwyddi draw (11 munud y dydd) ond yn is na'r gostyngiad a welwyd yng Ngogledd Iwerddon (15 munud y dydd).
- **Er gwaetha'r gostyngiad yn y nifer sy'n gwyllo teledu, pobl yng Nghymru sy'n treulio'r nifer mwyaf o oriau y dydd yn gwyllo'r teledu o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol.** Yn 2014, treuliodd pobl yng Nghymru 4 awr 11 munud ar gyfartaledd yn gwyllo'r teledu bob diwrnod, sy'n uwch nag yn yr Alban (3 awr 59 munud), Gogledd Iwerddon (3 awr 47 munud) a'r DU ar gyfartaledd (3 awr 47 munud).
- **Canfu ymchwil defnyddwyr Ofcom fod llai o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn gwyllo teledu traddodiadol (h.y. adeg darlledu'r rhaglenni) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol:** dywedodd 8% o'r ymatebwyr eu bod yn gwneud mwy o hyn, tra dywedodd 27% eu bod yn gwneud llai o hyn, newid net o -19%.
- **Dangosai'r ymchwil hefyd gynnydd mewn dulliau gwyllo anhraddodiadol ymysg atebwyr o Gymru.** Yr enillion net oedd +40% ar gyfer gwyllo gan ddefnyddio gwasanaeth dal-i-fyny nad oes raid talu amdano (e.e. iPlayer), +18% ar gyfer gwyllo cynnwys wedi'i recordio'n bersonol, a +13% o ymatebwyr yn defnyddio gwasanaethau ar-alwad y tanysgrifir iddynt (e.e. Netflix).
- **Roedd y gostyngiadau a honnwyd mewn gwyllo teledu traddodiadol (h.y. adeg darlledu'r rhaglenni), gwyllo drwy sgrin teledu, a gwyllo cynnwys gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus,** yn is na'r gostyngiadau yn y nifer yn gwyllo DVDs (colled net o -30% yng Nghymru) a mynd i'r sinema (-35% yng Nghymru) dros yr un cyfnod.
- **O'r holl oedolion yng Nghymru, dywedodd 48% eu bod wedi defnyddio gwasanaethau dal-i-fyny yn 2015, 8 pwynt canran o gynnydd ers yr un cyfnod yn 2014.** Mae hyn yn debyg i'r defnydd o wasanaethau dal-i-fyny yn yr Alban (49%) a'r DU yn gyffredinol (48%), ac yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon (32%). Mae'r defnydd o wasanaethau tanysgrifiadau fideo (14%) a recordwyr fideo personol (PVRs) (63%) yn debyg i gyfartaledd y DU.

¹ Mae *Traciwr Technoleg* Ofcom yn cynnwys data o Ch1 2015 hefyd.

² Mae'r ffigur ar gyfer Lloegr yn adlewyrchu'r cyfartaledd ar draws rhanbarthau Lloegr, gyda'r gostyngiad mwyaf yn y Gogledd Ddwyrain (-17 munud) a'r gostyngiad lleiaf yn rhanbarth Gororau'r Alban (Border) (- 2 funud).

Cyfathrebu cymdeithasol ar-lein a rhwydweithio cymdeithasol

- **Dywed tri chwarter defnyddwyr y rhyngwyd yng Nghymru bod technoleg wedi newid y ffordd y maent yn cyfathrebu, a dywed dwy ran o dair fod y dulliau cyfathrebu newydd hyn wedi gwneud bywyd yn haws, y ddau yn uwch nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU.** Ond, mae gan y dulliau cyfathrebu newydd hefyd eu hanfanteision. Mae ychydig o dan hanner yr holl oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein yng Nghymru (46%) yn dweud bod mynd ar-lein yn tarfu ar sgysiau wyneb yn wyneb a dywed oddeutu un o bob chwech (17%) eu bod yn treulio gormod o amser ar-lein o'i gymharu â threulio amser gyda ffrindiau a theulu.
- **Y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddir i gyfathrebu'n wythnosol â ffrindiau a theulu yng Nghymru ymysg oedolion ar-lein yw negeseuon testun (79%), e-bost (74%) a chyfarfodydd wyneb yn wyneb (73%).** Mae galwadau llais (66%), cyfryngau cymdeithasol (58%) a negeseua gwib (47%) hefyd yn ddulliau cyfathrebu sy'n cael eu defnyddio'n aml. Hefyd, mae oddeutu un o bob pump defnyddiwr ar-lein yng Nghymru yn defnyddio Twitter (23%), yn gwneud sylwadau ar wefannau (20%), ac yn defnyddio galwadau llais dros y rhyngwyd (19%) i gyfathrebu â ffrindiau a theulu.
- **Dywed dros un o bob pump oedolyn yng Nghymru eu bod wedi gwirioni â'r cyfryngau cymdeithasol.** Yn gyffredinol, dewisodd 22% o oedolion yng Nghymru sgôr o rhwng 7 a 10 ar raddfa 10 pwynt (gydag 1 yn cyfateb i 'Dydw i ddim wedi gwirioni o gwbl â'r cyfryngau cymdeithasol a 10 yn cyfateb i 'Dwi wedi gwirioni'n llwyr â'r cyfryngau cymdeithasol').
- **Facebook ydy'r brand mwyaf poblogaidd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.** Mae dros wyth o bob deg (83%) oedolyn ar-lein yng Nghymru yn dweud iddynt ddefnyddio Facebook pan roddwyd rhestr iddynt o wefannau. Hefyd, mae YouTube (72%) yn cael ei ddefnyddio gan fwyaf yng Nghymru. Mae Twitter (48%) a WhatsApp (40%) hefyd yn cael eu defnyddio gan leiafrif sylweddol.
- **Mae'r defnydd a wneir o Twitter yn uwch (48%) ymysg oedolion ar-lein yng Nghymru o'i gymharu â'r gwledydd eraill.** Mae Twitter yn cael ei ddefnyddio gan 40% o oedolion ar-lein yn Lloegr, gan 32% yn yr Alban a chan 33% yng Ngogledd Iwerddon.

Teledu a chynnwys clyweledol

- **Gwelwyd cynnydd yng nghyfanswm gwariant nominal darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni materion cyfoes (16% o gynnydd) a newyddion (15% o gynnydd) ar gyfer pobl yng Nghymru.** Cafwyd gostyngiad yn y gwariant ar raglenni nad oeddynt yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cynnydd cyffredinol o 6% mewn gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni i bobl yng Nghymru, mewn termau nominal.
- **Cynyddodd cyfanswm nifer yr oriau a ddarledwyd gan S4C yn 2014 i 6,788 awr, sef 68 awr o gynnydd, yn sgil cynnydd yn y rhaglenni a ailddarlledir, a oedd yn gyfrifol am 57% o'r holl raglenni yn ystod y flwyddyn, 4% o gynnydd; o 3,737 awr yn 2013 i 3,876 awr yn 2014.** Gostyngodd rhaglenni wedi'u comisiynu i'w dangos am y tro cyntaf oddi wrth gwmnïau annibynnol 3% o un flwyddyn i'r llall, gan ddod â'r cyfanswm i 1,916 awr yn y categori hwn.
- **Mae dros hanner cartrefi Cymru yn derbyn teledu lloeren drwy'r brif set; mae hyn yn dal yn uwch na chyfartaledd y DU.** Nid oedd dim newid yn 2015 ers 2014

yn nhrefiddiad teledu lloeren ledled Cymru, sef 53%, sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 41%. Cafwyd wyth pwynt canran o gynnydd i 17% yn 2014 yn y nifer â theledu clyfar yng Nghymru, sy'n debyg i gyfartaledd y DU.

- **Mae Caerdydd ac Aberystwyth yn llai tebygol na gweddill Cymru o fod â gwasanaethau teledu drwy dalu.** Ar draws Cymru gyfan, mae gan 57% o'r boblogaeth deledu drwy dalu, o'i gymharu â 47% yng Nghaerdydd a 27% yn Aberystwyth. Un rheswm posib am hyn yw bod mwy o bobl yn byw mewn llety rhent yn y trefi/dinasoedd hyn.
- **Mae'r rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg bellach yn fwy tebygol nag yn 2014 o fod â gwasanaeth teledu drwy dalu ar eu prif set deledu (70% yn 2015 o'i gymharu â 54% yn 2014).** Mae hyn yn debyg i'r cynnydd ar gyfer yr holl oedolion yng Nghymru ers 2014.
- **Mae Freesat yn fwy poblogaidd mewn trefi yng Ngogledd Cymru nag yn ninasoedd De Cymru.** Efallai fod hyn yn adlewyrchu problemau darpariaeth yng nghyswllt teledu daearol digidol yng ngogledd Cymru.

Radio a chynnwys sain

- **Mae mwy o bobl yng Nghymru yn gwrando ar y radio, ac am gyfnodau hwy, nag yn y DU drwyddi draw.** Yn 2014, cyrhaeddodd gwasanaethau radio 94.5% o'r boblogaeth oedolion yng Nghymru a bu gwrandawyr yn gwrando am 22.4 awr ar gyfartaledd yr wythnos. Ar gyfer y DU ar gyfartaledd, mae 89.5% o'r boblogaeth yn gwrando am 21.4 awr bob wythnos.
- **Mae gan bron i hanner yr oedolion yng Nghymru sy'n gwrando ar y radio set radio ddigidol.** Ni fu newid yn 2015 ers y flwyddyn flaenorol yng nghyfran y gwrandawyr radio yng Nghymru sy'n berchen ar o leiaf un set DAB (47%). Mae'r nifer sy'n berchen ar setiau radio DAB yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU.
- **Mae'r rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn llawer mwy tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â set radio ddigidol gartref (53% yn erbyn 39%).**
- **Cymru oedd yr unig un o'r gwledydd lle gostyngodd y refeniw ar gyfer gorsafoedd masnachol lleol yn 2014.** Gostyngodd refeniw radio masnachol lleol 2.9% i £4.84 y pen o'r boblogaeth. Mae refeniw radio masnachol y pen o'r boblogaeth yn llawer is yng Nghymru hefyd. £6.45 ydy cyfartaledd y DU.

Gwasanaethau telegyfathrebu a rhwydweithiau

- **Cynyddodd treiddiad band eang saith pwynt canran, i 78%, yng Nghymru yn y flwyddyn i Ch1 2015.** Y rheswm am y cynnydd oedd twf yn y nifer a fanteisiodd ar wasanaethau band eang sefydlog dros y cyfnod.
- **Roedd 79% eiddo yng Nghymru yn gallu cael gwasanaethau band eang cyflym iawn ym mis Mai 2015.** Dyma'r ail ganran uchaf ar draws gwledydd y DU, ar ôl Lloegr (84%).
- **Yng Nghymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf ond un yn argaeledd 4G yng ngwledydd y DU rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mai 2015.** Dros y cyfnod hwn, cynyddodd canran yr eiddo mewn ardaloedd â darpariaeth 4G symudol yn yr awyr

agored 18.4 pwynt canran yng Nghymru i 62.8%, er mai hwn oedd y ganran isaf ar draws gwledydd y DU.

- **Roedd gan ychydig o dan chwarter (23%) oedolion Cymru wasanaeth 4G yn Ch1 2015.** Roedd hyn yn is na chyfartaledd y DU o 39% er ei fod yn cyfateb i 12 pwynt canran o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol.
- **Mae canran y cartrefi yng Nghymru sy'n gartrefi symudol-yn-unig wedi gostwng ers 2014.** Ychydig o dan un o bob pump cartref yng Nghymru (17%) oedd yn gartrefi symudol-yn-unig yn Ch1 2015, pum pwynt canran o ostyngiad ers Ch1 2014.

Y rhyngrwyd a chynnwys ar y we

- **Cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar fand-eang yng Nghymru rhwng 2014 a 2015 i oddeutu 17 cartref o bob 20 (86%).** Roedd hyn yn chwe phwynt canran o gynydd ar ffigur 2014 (80%).
- **Roedd y nifer sy'n berchen ar ffôn clyfar yng Nghymru yn sefydlog yn 2015, sef chwech o bob deg oedolyn (63%), yn unol â'r nifer yn y DU drwyddi draw.**
- **Mae 60% o gartrefi Cymru yn berchen ar ddyfais tabled,** yn dilyn 15 pwynt canran o dwf ers 2014. Mae hyn yn golygu bod y nifer sy'n berchen ar ddyfais tabled yn uwch yng Nghymru nag yn y DU (54%).
- **Mae'r rheini sy'n siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn llawer llai tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â mynediad i'r rhyngrwyd** (drwy unrhyw ddull) gartref (76% o'i gymharu â 86%), ac yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhyngrwyd drwy ffôn clyfar yn unig (2% o'i gymharu â 7%).
- **Yn 2014, dywedodd defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru eu bod yn treulio cryn dipyn yn fwy o amser yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref (15.3 awr yr wythnos) na'r cyfartaledd o 12.6 awr yr wythnos ar gyfer y DU drwyddi draw.** Yn gyffredinol, mae defnyddwyr y rhyngrwyd yng Nghymru yn treulio 21.2 awr ar-lein bob wythnos ar gyfartaledd.

Post

- **Mae oedolion yng Nghymru yn anfon mwy o bost nag oedolion yn y DU drwyddi draw.** Roedd tri chwarter yr oedolion yng Nghymru yn dweud eu bod wedi gyrru o leiaf un eitem drwy'r post yn y mis diwethaf. Maent yn dweud eu bod yn anfon 6.5 eitem drwy'r post bob mis ar gyfartaledd, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU, sef 6.0 eitem.
- **Oedolion yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o fod wedi anfon parseli yn ystod y mis diwethaf.** Mae pobl yng Nghymru ychydig yn fwy tebygol na phobl yng ngweddill y DU o fod wedi anfon parseli yn ystod y mis diwethaf (42% o'i gymharu â 40% ledled y DU). Pobl yng Nghymru sydd lleiaf tebygol o fod wedi anfon taliadau am filiau drwy'r post.
- **Mae bron i naw o bob deg o bobl Cymru yn fodlon ar y Post Brenhinol.** Dywed y mwyafrif (88%) eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a geir gan y Post Brenhinol, o'i gymharu â 86% ar draws y DU.

Ffigur 1.1 Ffeithiau Cyflym Cymru

Ffeithiau Cyflym y Gwledydd: ton 1 2015 (%)— oni nodir fel arall, mae'r ffigurau yn gysylltiedig â'r cartrefi sy'n defnyddio'r gwasanaeth

	Y DU	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon	DU drefol	DU wledig	Cymru drefol	Cymru wledig
Teledu digidol yn y cartref	97	97	96	98	97	96 ⁻	98 ⁺	98	98
Teledu digidol drwy dalu	59	58	58 -10	67 ¹ ⁺ +10	63	59 ⁺	55 ⁻	69 +11	61
Teledu Freeview yn unig	30	30 -3	35 ² +10	24 ⁻ -9	28	30 ⁻	35 ⁺	23 -11	27
Nifer â theledu clyfar (mewn cartrefi sydd â theledu)	21 +9	21 +9	19 +11	17 +8	15 ⁻ +8	20 +8	23 +12	16 +8	18
Gwasanaeth teledu HD (mewn cartrefi sydd â theledu HD)	75 +5	75 +5	75	69 ⁻	75	74 ⁻ +4	81 ⁺	67 ⁻	78 ⁺
Perchnogaeth DAB (ymysg gwrandawyr radio) ³	43	44	37	47	29 ⁻	42 ⁻	50 ⁺	49 ⁺	38 ⁻
Teledu dal i fyny/gwyllo ffilmiau ar-lein/ ar-alwad (drwy gyfrwng unrhyw ddyfais, ymysg y rheini sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd)	56 +5	56 +5	62	57	42 ⁻	56 +4	56 +10	58	54
Cyfanswm mynediad i'r rhyngwrwyd gartref (drwy gyfrwng unrhyw ddyfais)	85 +3	86 +4	78 ⁻	86 +6	79 ⁻	85 +3	85	86	85
Nifer â band eang gartref (sefydlog neu fand eang)	80 +3	81 +4	73 ⁻	78 +7	72 ⁻	79 +3	82	77	80
Defnyddio ffôn symudol i fynd ar y rhyngwrwyd	61 +4	62 +5	59	59	60 +9	62 ⁺ +4	55 ⁻	60	51
Nifer â ffôn symudol (defnydd personol)	93	93	91	90	91	92	93	90	89
Nifer â ffôn clyfar (defnydd personol)	66 +5	67 +6	63	63	63 +8	67 ⁺ +5	59 ⁻	64	59
Nifer â gwasanaeth 4G (ymysg perchnogion ffôn clyfar)	45 +26	45 +26	55 ⁺ +25	36 ⁻ +16	40 +25	46 ⁺ +26	35 ⁻ +16	38 +18	28
Nifer â llinell dir sefydlog	84	85	82	83	84	84 ⁻	90 ⁺	82	85
Nifer â chyfrifiadur bwrdd gwaith	34	37	22 ⁻	26 ⁻	28 ⁻	34	35	24 ⁻	34 ⁺
Nifer â glieniadur	65	66	55 ⁻	65 +8	55 ⁻	64	67	65 +10	65
Nifer â chyfrifiadur tabled	54 +10	54 +10	52 +10	60 ⁺ +15	54 +9	54 +11	55 +8	62 +16	54 +12
Nifer ag e-ddarllenydd (defnydd personol)	20 +3	20 +3	14 ⁻	19	15 ⁻	19 +3	22	19	18
Cartrefi sy'n cymryd bwndeli	63	64	61	67 +8	61 +7	63	67	68 +9	64

Allwedd: ⁺Mae'r ffigur yn sylweddol uwch ar gyfer y wlad na chyfartaledd y DU neu yn sylweddol uwch ar gyfer trefol/gwledig y wlad nag ar gyfer gwledig/trefol y wlad; ⁻Mae'r ffigur yn sylweddol is ar gyfer y

wlad na chyfartaledd y DU neu yn sylweddol is ar gyfer trefol/gwledig y wlad nag ar gyfer gwledig/trefol y wlad; +xx Mae'r ffigurau wedi codi'n sylweddol o xx bwynt canran ers W1 2014; +xx Mae'r ffigurau wedi gostwng yn sylweddol o xx pwynt canran ers W1 2014;

	Y DU	Lloegr	Yr Alban	Cymru	Gogledd Iwerddon
Argaeledd telefoni sefydlog	100	100	100	100	100
Argaeledd band eang sefydlog ⁴	99.98	100	99.86	100	100
Argaeledd band eang LLU ADSL ⁵	95	96	89	93	89
Argaeledd band eang cebl Virgin Media ⁶	44	47	36	21	27
Argaeledd band eang ffibr BT Openreach / Kcom ⁷	82	82	75	83	92
Argaeledd band eang mynediad y genhedlaeth nesaf ⁸	90	90	85	87	95
Argaeledd band eang cyflym iawn	83	84	73	79	77
Argaeledd gwasanaeth symudol 2G ⁹	99.7	99.8	99.5	98.9	98.9
Argaeledd gwasanaeth symudol 3G ¹⁰	99.3	99.6	97.1	97.9	98.6
Argaeledd gwasanaeth symudol 4G ¹¹	89.5	92.1	79.7	62.8	91.1
Argaeledd DTT ¹²	98.5	98.6	98.7	97.8	97.4
Gwylio'r teledu (munudau bob dydd)	220	221 *	239	251	227
Gwranddo ar y radio (munudau bob dydd)	183	184	171	138	185

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom W1 2015, BARB, RAJAR, data'r diwydiant

Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (n = 3756 y DU, 496 Cymru, 2264 Lloegr, 492 yr Alban, 504 Gogledd Iwerddon, 1974 Lloegr drefol, 290 Lloegr wledig, 246 yr Alban drefol, 246 yr Alban wledig, 249 Cymru drefol, 247 Cymru wledig, 249 Gogledd Iwerddon drefol, 255 Gogledd Iwerddon wledig)

1. Efallai mai'r rheswm am y cynnydd hwn yw gostyngiad anghyson mewn teledu cebl fel y brif set deledu yng Nghymru yn 2014 - Yn 2015 cynyddodd y nifer sy'n manteisio ar deledu cebl yng Nghymru 6 phwynt canran i 10% dros y flwyddyn flaenorol gan ddychwelyd i lefelau cynnydd 2013. Mae arolygon ymchwil marchnad yn agored i wall sampl ac weithiau mae'r canlyniadau'n anghyson.
2. Yn 2014 roedd data'r arolwg yn dangos gostyngiad yn y defnydd o Freeview fel prif wasanaeth teledu yn yr Alban. Mae mesur 2015 yn debyg i'r mesur blaenorol o 2013. Mae hyn yn awgrymu efallai mai gwall sampl oedd yn gyfrifol am y gostyngiad ymddangosiadol yn 2014.
3. Mae'r ffigurau ar gyfer perchnogaeth DAB yn y gwledydd a'r DU a geir yma yn dod o ymchwil Ofcom. Mae UK CMR yn defnyddio data RAJAR ar gyfer perchnogaeth DAB
4. Canran yr eiddo sydd wedi'u cysylltu â chyfnwidfa leol ADSL BT, yn seiliedig ar ddata BT, Rhagfyr 2014
5. Canran yr eiddo sydd wedi'u cysylltu â chyfnwidfa leol LLU BT, yn seiliedig ar ddata BT, Rhagfyr 2014
6. Canran yr eiddo sy'n gallu derbyn gwasanaethau band eang cebl Virgin Media, Mai 2015
7. Canran yr eiddo sy'n gallu cael gwasanaethau band eang ffibr BT Openreach/KCom, Mai 2015; o dan reolau rheoleiddio, gall darparwyr eraill ddarparu gwasanaethau band eang ffibr adwerthol i ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r rhwydweithiau hyn.
8. Canran yr eiddo sy'n gallu cael gwasanaethau band eang mynediad y genhedlaeth nesaf, Mai 2015
9. Canran yr eiddo â darpariaeth symudol 2G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2015

10. Canran yr eiddo â darpariaeth symudol 3G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2015

11. Canran yr eiddo â darpariaeth symudol 4G yn yr awyr agored oddi wrth o leiaf un cwmni, Mai 2015

12. Rhagamcan o ganran y cartrefi sy'n gallu derbyn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (DGC) drwy DTT (darpariaeth gan y 3 aml-blecs DGC. Prosiect Cynllunio Teledu ar y cyd (Arqiva, BBC, Ofcom)

* Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r cyfartaledd ar draws rhanbarthau Lloegr gyda'r uchaf yn ardal Border ar 250 munud (4 awr 10 munud) a'r isaf yn ardal West ar 197 munud (3 awr 17 munud).

1.2 Cyfathrebu cymdeithasol ar-lein

Cyflwyniad

Cynhaliodd Ofcom arolwg ymysg defnyddwyr y rhyngwrwd i ymchwilio i sut y mae'r rhyngwrwd, a bod ar-lein ac yn gysylltiedig, wedi dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn cynnal eu perthnasoedd cyfredol, yn ogystal â sefydlu cysylltiadau a pherthnasoedd newydd³.

Mae'r adran hon yn edrych ar Gymru. Mae'n werth nodi nad oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng Cymru a'r gwledydd eraill, ac felly mae'r stori'n gyson â'r gwledydd eraill drwyddi draw⁴. Mae'r holl ffigurau a nodir yn y naratif yn ymwneud â Chymru oni nodir fel arall.

Aqweddau at ddulliau cyfathrebu ar-lein

Cytuna tri chwarter defnyddwyr y rhyngwrwd yng Nghymru fod technoleg wedi newid y ffordd y maent yn cyfathrebu


Cytuna tri chwarter (76%) defnyddwyr y rhyngwrwd yng Nghymru bod '*technoleg wedi newid y ffordd y maent yn cyfathrebu*' a bod dwy ran o dair (65%) yn dweud bod y dulliau cyfathrebu newydd hyn wedi '*gwneud eu bywyd yn haws*'.

Ystyrir hefyd bod gan ddulliau cyfathrebu digidol eu manteision. Cytuna oddeutu chwech o bob deg (61%) o oedolion ar-lein yng Nghymru bod mynd ar-lein yn '*hollbwysig i gael gwybod am faterion cyfoes a phroblemau cymdeithasol*' ac yn cytuno ei fod yn eu helpu i '*gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu agos*' (63%). Cytuna canran tebyg (61%) ei fod yn '*eu hysbrydoli i roi cynnig ar bethau newydd*'.

³ Cynhaliwyd yr arolwg gan YouGov ym mis Mai 2015 ymysg sampl ar-lein o 2,290 o oedolion y DU ac mae'n rhoi ciplun o ddulliau cyfathrebu personol pobl. Dyma nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd fesul gwlad: Lloegr = 1879, yr Alban = 200, Cymru = 113 a Gogledd Iwerddon = 98.

⁴ Oherwydd bod maint y seiliau'n isel, mae'r hyder ar gyfer amcangyfrif y cyfartaledd poblogaeth yn y wlad yn gyfyngedig. Felly, dim ond gwahaniaethau mawr rhwng y gwledydd (rhwng 8% ac 18%) y gellir eu nodi fel gwahaniaethau sylweddol ar lefel hyder o 95%. Nid oes dim gwahaniaethau rhwng y gwledydd yn sylweddol pan ddefnyddir y lefelau hyder hyn.

Ffigur 1.2 Lefel y cytuno â datganiadau cadarnhaol am ddulliau cyfathrebu ar-lein, fesul gwlad



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015


Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn (n=2290), Lloegr (n=1879), yr Alban (n=200), Cymru (n=113), Gogledd Iwerddon (n=98).

C115. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

Mae lleiafrif (17%) o oedolion yng Nghymru yn meddwl eu bod yn treulio gormod o amser ar-lein o'i gymharu â'r amser a dreuliant gyda ffrindiau a theulu

Er gwaetha'r manteision a welir yn Ffigur 1.2, mae rhai anfanteision i'r dulliau cyfathrebu newydd hyn. Mae ychydig o dan hanner yr holl oedolion ar-lein yng Nghymru (46%) yn cytuno 'bod mynd ar-lein yn tarfu ar sgrysiâu wyneb yn wyneb gyda ffrindiau a theulu' a chytuna oddeutu un o bob chwech (17%) eu bod yn 'treulio gormod o amser ar-lein o'i gymharu a'r amser a dreuliant gyda ffrindiau a theulu'. Does dim gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwledydd mewn perthynas a'r ddau ddatganiad hyn.

Ffigur 1.3 Lefel y cytuno â datganiadau negyddol am ddulliau cyfathrebu ar-lein, fesul gwlad



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn (n=2290), Lloegr (n=1879), yr Alban (n=200), Cymru (n=113), Gogledd Iwerddon (n=98).

C115 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?


Dulliau cyfathrebu

Negeseuon testun ac e-bost yw'r dulliau wythnosol mwyaf cyffredin o gyfathrebu.

Dengys Ffigur 1.4 mai negeseuon testun (79%) ac e-bost (74%) yw'r ddau ddull mwyaf cyffredin o gysylltu'n wythnosol. Ond, mae cwrdd wyneb y wyneb (73%) a galwadau llais (66%) hefyd yn cael eu defnyddio gan fwyafrif. Mae dulliau cyfathrebu ar-lein mwy newydd fel y cyfryngau cymdeithasol (58%) a negeseua gwib (47%) hefyd yn cael eu defnyddio gan lawer fel rhan o'u repertoire cyfathrebu wythnosol. Hefyd, mae oddeutu un o bob pump defnyddiwr ar-lein yng Nghymru yn defnyddio Twitter (23%), yn gwneud sylwadau ar wefannau (20%), ac yn defnyddio galwadau llais dros y rhyngwyd (19%) i gyfathrebu â ffrindiau a theulu.

Mae dulliau cyfathrebu drwy'r post fel llythyrau neu gardiau'n cael eu defnyddio'n wythnosol neu'n amlach gan un o bob deg oedolyn ar-lein (9%), gan gynyddu i un o bob tri (32%) wrth ymestyn yr amser ac ystyried y defnydd ohonynt unwaith y mis neu'n amlach.

Ffigur 1.4 Dulliau cyfathrebu â ffrindiau a theulu: unwaith yr wythnos neu'n amlach, fesul gwlad



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn (n=2290), Lloegr (n=1879), yr Alban (n=200), Cymru (n=113), Gogledd Iwerddon (n=98).

C50. Gan feddwl am eich dulliau cyfathrebu personol yn gyffredinol, pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r canlynol i gyfathrebu â theulu a ffrindiau?


Cyfathrebu â rhwydweithiau agos: ffrindiau a theulu

Mae'n well gan dros ddwy ran o dair o bobl yng Nghymru gyfathrebu'n bersonol ag aelodau'r teulu

Dengys Ffigur 1.5 fod y dulliau cyfathrebu a ffafriar yr un fath ar gyfer ffrindiau a theulu, gyda chwrdd â phobl wyneb yn wyneb yn brif ddewis (69% ar gyfer y teulu a 58% ar gyfer ffrindiau). Mae'r cyfathrebu wyneb yn wyneb hwn sy'n cael ei ffafrio yn gyson ar draws holl wledydd y DU.

Y dulliau nesaf a ffafirir yw galwadau llais (7% ar gyfer y teulu a 6% ar gyfer ffrindiau), negeseuon testun (6% ar gyfer y teulu ac 11% ar gyfer ffrindiau) ac e-bost (7% ar gyfer y teulu a 9% ar gyfer ffrindiau). Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn hynod am eu sgôr isel ar gyfer cyfathrebu ag aelodau'r teulu a ffrindiau agos⁵.

Ffigur 1.5 Dulliau a ffafirir ar gyfer cyfathrebu â ffrindiau a theulu



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein sy'n 16 oed a hŷn sy'n cyfathrebu ag aelodau'r teulu a ffrindiau agos.

C52. A pha rai o'r dulliau canlynol rydych yn eu ffafrio er mwyn cyfathrebu â.....?

Mae'r siart yn cynnwys data ar gyfer yr holl ymatebion 5% neu fwy.


Wrth gyfathrebu â grwpiau o ffrindiau a theulu, mae'n well gan bron i un o bob pump o bobl yng Nghymru ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

Mae Ffigur 1.6 yn dangos y dull a ffafirir ar gyfer cyfathrebu â grwpiau o ffrindiau neu deulu. Er mai cyfarfod wyneb yn wyneb yw hoff ddull llawer o hyd (35% yng Nghymru), mae 17% o oedolion ar-lein yng Nghymru yn ffafrio'r cyfryngau cymdeithasol, a hefyd negeseuon testun (18%).

⁵ Dangosir data ar gyfer ymatebion 5% neu fwy ar y siartiau.

Ffigur 1.6 Y dull a ffafir i gyfathrebu â grwpiau o ffrindiau a theulu: unwaith yr wythnos neu'n amlach, fesul gwlad

Grwpiau o ffrindiau a theulu



Ffynhonnell: Ymchwiliad Ofgcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein sy'n 16 oed a hŷn sy'n cyfathrebu â grwpiau o deulu a ffrindiau.

C52. A pha rai o'r dulliau canlynol rydych yn eu ffafrio er mwyn cyfathrebu â.....?


Mae'r siart yn cynnwys data ar gyfer yr holl ymatebion 5% neu fwy.

Yn gyffredinol, post yw'r dull a ffafir i anfon cyfarchion ar gyfer hanner yr oedolion ar-lein yng Nghymru

Dengys Ffigur 1.7 fod oddeutu hanner yr oedolion ar-lein yng Nghymru (48%) yn defnyddio'r gwasanaeth post i anfon llythyrau, cardiau neu becynnau pan fyddant eisio anfon cyfarchiad. Mae'n well gan gyfran sylweddol (21%) ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae'n well gan un o bob chwech (16%) wneud hynny wyneb yn wyneb.

Ffigur 1.7 Y dull a ffafir ar gyfer rhoi cyfarchion pen-blwydd a llongyfarchion

Cyfarchion pen-blwydd a llongyfarchion



Ffynhonnell: Ymchwiliad Ofgcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n anfon cyfarchion ar gyfer achlysuron a digwyddiadau, er enghraifft pen-blwyddi, brysiwch wella, llongyfarchiadau ayb.

C52. A pha rai o'r dulliau canlynol rydych yn eu ffafrio er mwyn cyfathrebu ar gyfer.....?

Mae'r siart yn cynnwys data ar gyfer yr holl ymatebion 5% neu fwy.

Cyfathrebu â phobl nad ydynt mor gyfarwydd


Y cyfryngau cymdeithasol yw'r dulliau a ffafir ar gyfer cyfathrebu â phobl nad ydynt mor gyfarwydd

Yng Nghymru, y cyfryngau cymdeithasol (32%) yw'r dull a ffafir ar gyfer cyfathrebu â phobl nad ydynt mor gyfarwydd ac wedyn e-bost (22%) a negeseuon testun (19%). Wyneb yn wyneb (11%) yw'r dull a ffafir o hyd gan un o bob deg.


Mae tra-arglwyddiaeth e-bost yn codi (ar 43%) i ddod yn ddull a ffafir gan leiafrif sylweddol ar gyfer cysylltu â phobl cwbl ddieithr, yn cael ei ddilyn gan negeseuon testun (12%) ac wedyn y cyfryngau cymdeithasol (10%).

Ffigur 1.8 Y dull a ffafir ar gyfer cyfathrebu â phobl nad ydynt mor gyfarwydd

Ffrind dydych chi ddim yn ei adnabod gystal



Pobl cwbl ddieithr



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein sy'n 16 oed a hŷn sy'n cyfathrebu â ffrindiau nad ydynt yn eu hadnabod gystal â phobl nad ydynt wedi cyfarfod â nhw.

C52. A pha rai o'r dulliau canlynol rydych yn eu ffafrio er mwyn cyfathrebu â.....?

Mae'r siart yn cynnwys data ar gyfer yr holl ymatebion 5% neu fwy.

Gwneud cysylltiadau newydd ar-lein

O'r 19% o oedolion ar-lein yng Nghymru sy'n defnyddio gwefannau chwilio-am-gariad, mae dros hanner wedi sefydlu cyfeillgarwch newydd drwyddynt.


Mae llawer o'r cyfryngau cymdeithasol a drafodir yn yr adran hon yn broses un-ffordd, hynny yw, y cyfan sy'n digwydd yw defnyddiwr yn postio neu'n creu gwybodaeth y gall defnyddiwr arall ddewis ei darllen neu ei gwyllo. Ond, mae rhai gweithgareddau yn gallu hwyluso cyflwyniadau rhwng pobl, gan eu galluogi i ffurfio cysylltiadau newydd neu gyfeillgarwch hyd yn oed.

Dengys Ffigur 1.9 i ba raddau y mae pobl yn defnyddio gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol, ac a ydynt wedi ffurfio perthnasoedd newydd drwy'r mathau hyn o safleoedd.

O'r pedwar math o safle sy'n cael sylw yn yr arolwg, mae llwyfannau negeseua fel WhatsApp a Snapchat yn cael eu defnyddio'n gyson (mae 40% o oedolion ar-lein yn defnyddio'r mathau hyn o safle yng Nghymru), ac wedyn fforymau trafod a byrddau bwletin (25%), a gwefannau chwilio-am-gariad (19%). Swyddogaethau sgwrsio ar wefannau gamblo (13%) a ddefnyddir leiaf, gan oddeutu un o bob wyth oedolyn ar-lein yng Nghymru.

Ymysg yr 19% o oedolion ar-lein yng Nghymru sy'n dweud eu bod wedi defnyddio gwefannau chwilio-am-gariad, mae 55% wedi gwneud cyfeillion newydd. Mae fforymau trafod a byrddau bwletin hefyd yn ffordd boblogaidd o wneud cysylltiadau newydd, gyda dros dwy ran o bump (41%) y defnyddwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi cwrdd â phobl newydd fel hyn. Mae oddeutu un o bob tri oedolyn ar-lein sy'n defnyddio'r safleoedd hyn yng Nghymru wedi cwrdd â phobl newydd hefyd ar lwyfannau negeseua grŵp (31%) a thrwy swyddogaethau sgwrsio ar wefannau gamblo (30%).

Ffigur 1.9 Defnyddio gweithgareddau ar-lein gwahanol i wneud cysylltiadau newydd



Ffynhonnell: Ymchwiliad Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein sy'n 16 oed a hŷn a phob defnyddiwr gwefannau sy'n 16 oed a hŷn. C70. Ac a ydych chi erioed wedi defnyddio'r mathau canlynol o safle?

C70a. Ac a ydych chi erioed wedi gwneud ffrindiau a chysylltiadau newydd ar-lein

1.3 Rhwydweithio cymdeithasol

Cyflwyniad

Cynhaliodd Ofcom arolwg ymysg defnyddwyr y rhyngwrwd i ymchwilio i'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac agweddau tuag at y defnydd hwnnw. Daw'r data o'r un holiadur a ddefnyddiwyd yng nghyswllt yr adran flaenorol ar rwydweithiau cyfathrebu personol⁶.

Mae'r adran hon yn edrych ar Gymru. Mae'n werth nodi nad oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng Cymru a'r gwledydd eraill, ac felly mae'r stori'n gyson â'r gwledydd eraill drwyddi draw⁷. Mae'r holl ffigurau a nodir yn y naratif yn ymwneud â Chymru oni nodir fel arall.

⁶ Cynhaliwyd yr arolwg gan YouGov ym mis Mai 2015 ymysg sampl ar-lein o 2,290 o oedolion y DU. Dyma nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd fesul gwlad: Lloegr = 1879, yr Alban = 200, Cymru = 113 a Gogledd Iwerddon = 98.

⁷ Oherwydd bod maint y seiliau'n isel, mae'r hyder ar gyfer amcangyfrif y cyfartaledd poblogaeth yn y wlad yn gyfyngedig. Felly, dim ond gwahaniaethau mawr rhwng y gwledydd (rhwng 8% a 9%) y gellir eu nodi fel gwahaniaethau sylweddol ar lefel hyder o 95%. Nid oes dim gwahaniaethau rhwng y gwledydd yn sylweddol pan ddefnyddir y lefelau hyder hyn.

Defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol


O ran cyrhaeddiad, Facebook yw'r safle cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir fwyaf, yn cael ei ddilyn gan YouTube.

Yn ôl astudiaeth Ofcom o Lythrennedd yn y Cyfryngau, Facebook, o ran cyrhaeddiad, yw'r brand mwyaf poblogaidd, gyda 97% o oedolion sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio'r safle⁸. Mae canfyddiadau'r ymchwil ar-lein yn ategu'r defnydd sylweddol hwn o Facebook, gyda dros wyth o bob deg (83%) oedolyn ar-lein yng Nghymru yn dweud eu bod wedi defnyddio Facebook ar ryw achlysur, pan roddwyd rhestr o wefannau iddynt ddewis ohoni. Mae YouTube yn ail agos, gyda 72% o ddefnyddwyr ar-lein yng Nghymru wedi'i ddefnyddio. Mae Twitter (48%) a WhatsApp (40%) hefyd yn cael eu defnyddio gan fwy a mwy o bobl.

Mae dulliau cyfathrebu fideo a lluniau fel Instagram, Pinterest a Snapchat yn dod yn fwyfwy poblogaidd

Mae chwarter y defnyddwyr ar-lein yng Nghymru wedi defnyddio Instagram (23%) a Pinterest (23%). Mae un o bob chwech arall wedi defnyddio Snapchat (16%) ac un o bob deg wedi defnyddio Flickr (11%).

Ffigur 1.10 Gwefannau ac apiau sydd wedi cael eu defnyddio, fesul gwlad: y 10 ymateb uchaf



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn (n=2290), Lloegr (n=1879), yr Alban (n=200), Cymru (n=113), Gogledd Iwerddon (n=98).

C60. Ydych chi erioed wedi defnyddio unrhyw rai o'r gwefannau canlynol. Os ydych chi, pa rai? (Dangosir y deg ymateb uchaf)


Mae WhatsApp, Pinterest ac Instagram yn ychwanegiadau diweddar i rai defnyddwyr ar-lein yng Nghymru

Fel ffordd o ganfod tueddiadau diweddar yn nefnydd pobl o wefannau ac apiau, gofynnwyd cwestiwn ynghylch ychwanegiad mwyaf diweddar pobl. Mae arwyddion bod gwefannau mwy

⁸ <http://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/other/research-publications/adults/media-lit-10years/>. Tudalen 38.

newydd sy'n seiliedig ar ddelweddau a ffotograffau yn cael eu defnyddio i'w gweld yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ymysg y rheini sy'n dweud eu bod yn defnyddio unrhyw rai o'r pyrth cyfathrebu/rhwydweithio cymdeithasol y cyflwynwyd rhestr ohonynt iddynt, (gweler Ffigur 1.11) nodwyd gan 19% o ddefnyddwyr gwefannau mai WhatsApp yw'r 'ychwanegiad mwyaf diweddar'. Nodwyd gan un o bob saith (14%) fod Twitter hefyd yn ychwanegiad diweddar. Roedd Instagram (9%) a Pinterest (7%) yn ychwanegiad newydd hefyd i rai.

Ffigur 1.11 Safle neu ap sydd wedi'i ychwanegu'n fwyaf diweddar



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob defnyddiwr gwefannau 16 oed a hŷn (n=1179), Lloegr (n=1457), yr Alban (n=161), Cymru (n=90), Gogledd Iwerddon (n=71).

C61d. Pa un yw eich ychwanegiad mwyaf diweddar chi?

Mae'r siart yn cynnwys data ar gyfer yr holl ymatebion 5% neu fwy.

Dywed dau o bob pump oedolyn yng Nghymru sy'n tynnu lluniau digidol eu bod yn eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae'r defnydd o safleoedd lluniau a delweddau hefyd yn cael ei ategu gan ymchwil Ofcom i'r ffordd y mae pobl yn tynnu lluniau a'u rhannu⁹. Mae dros dri chwarter (76%) o oedolion yng Nghymru yn tynnu lluniau digidol a'r ffôn symudol yw'r ddyfais a ddefnyddir amlaf i wneud hyn: mae 57% o oedolion Cymru wedi tynnu lluniau â ffôn symudol a dywed 46% mai hwn yw'r ddyfais y maent yn ei ddefnyddio amlaf.

Dywed dau o bob pump (41%) oedolyn yng Nghymru sy'n tynnu lluniau digidol eu bod yn rhannu'u lluniau gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o'r rhain yn debyg o fod yn hun-luniau (selfies). Dywed dros chwarter (27%) y bobl yng Nghymru eu bod wedi cymryd hun-lun ar ryw adeg a dywed un o bob deg (10%) eu bod yn tynnu hun-lun o leiaf unwaith yr wythnos.


⁹ Daw'r canfyddiadau o arolwg Omnibws Kantar Media, arolwg wyneb yn wyneb a gomisiynwyd gan Ofcom ac sy'n cynrychioli holl oedolion y DU.

Aqweddau at y cyfryngau cymdeithasol

Dywed dros un o bob pump o bobl eu bod wedi gwirioni â'r cyfryngau cymdeithasol

Er mwyn deall i ba raddau y mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan o fywydau pobl, gofynnwn i bobl nodi rhif ar raddfa lle roedd 1 yn cyfateb i 'dydw i ddim wedi gwirioni o gwbl â'r cyfryngau cymdeithasol' a 10 yn cyfateb i 'Dwi wedi gwirioni'n llwyr â'r cyfryngau cymdeithasol'. Yn gyffredinol, cafwyd sgôr rhwng 7 a 10 gan ychydig dros un o bob pum oedolyn (22%) yng Nghymru (gweler Ffigur 1.12), sy'n awgrymu bod y bobl hyn yn teimlo eu bod wedi gwirioni â'r cyfryngau cymdeithasol. Gwelir patrwm cyson a thebyg ar draws yr holl wledydd.

Ffigur 1.12 Y graddau y mae pobl wedi gwirioni â'r cyfryngau cymdeithasol, fesul gwlad



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015


Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn (n=2290), Lloegr (n=1879), yr Alban (n=200), Cymru (n=113), Gogledd Iwerddon (n=98).

C91. Petai rhaid ichi ddewis rhif rhwng 1 a 10, gydag 1 yn cynrychioli 'Dydw i ddim wedi gwirioni o gwbl â'r cyfryngau cymdeithasol' a 10 yn cynrychioli 'Dwi wedi gwirioni'n llwyr â'r cyfryngau cymdeithasol', pa rif fydddech chi'n ei ddewis i'ch disgrifio chi?

Mae un o bob pump wedi postio pethau ar-lein ac yn difaru gwneud hynny

Mae pryderon am breifatrwydd yng nghyswllt defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; dengys Ffigur 1.13 fod bron i saith o bob deg oedolyn yng Nghymru (69%) yn cytuno 'na allant ddeall pam mae pobl yn rhannu gwybodaeth bersonol â phobl nad ydynt yn eu hadnabod yn dda neu o gwbl. Mae canran debyg (63%) yng Nghymru hefyd yn cytuno 'bod pobl yn gwastraffu gormod o amser ar y cyfryngau cymdeithasol'. Mae dau ddeg tri y cant o oedolion yng Nghymru wedi rhoi pethau ar-lein ac yn difaru gwneud hynny.

Ffigur 1.13 Lefel y cytundeb â datganiadau am y cyfryngau cymdeithasol



Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom, 'Connected Devices', Mai 2015

Sail: Pob oedolyn ar-lein 16 oed a hŷn =2290

C90 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am y cyfryngau cymdeithasol?

1.4 Newidiadau yn y defnydd o wasanaethau clyweledol yng Nghymru

Gwyllo teledu wedi'i ddarlledu

Mae dadansoddiad BARB yn seiliedig ar y rhaglenni teledu wedi'u hamserlennu, megis rhaglenni sydd wedi'u rhestru yng nghylchgronau rhestru rhaglenni teledu neu gyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) ar setiau teledu. Mae 'Gwyllo Teledu wedi'i Ddarlledu' yn cyfeirio at raglenni teledu sy'n cael eu gwyllo'n fyw adeg eu darlledu (gwyllo teledu yn y ffordd draddodiadol), recordiadau o'r rhaglenni hyn neu wyllo'r rhaglenni drwy wasanaethau dal-i-fyny (recordio rhaglenni i'w gwyllo'n ddiweddarach), hyd at saith niwrnod ar ôl iddynt ymddangos ar y teledu.

Gwyllo teledu yn y ffordd draddodiadol

Mae gwyllo teledu yn y ffordd draddodiadol yn cyfeirio at raglenni teledu sy'n cael eu gwyllo'n fyw adeg eu darlledu ar y teledu.


Gwyllo teledu mewn ffordd anhraddodiadol

Mae hyn yn cyfeirio at raglenni teledu nad ydynt yn cael eu gwyllo'n fyw adeg eu darlledu. Mae hyn yn cynnwys gwyllo rhaglenni teledu drwy beiriannau recordio fideo digidol, gwasanaethau dal-i-fyny, gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad a gwasanaethau talu-i-wyllo.

Roedd pobl yng Nghymru wedi gwyllo 12 munud yn llai o deledu wedi'i ddarlledu y dydd yn 2014 nag yn 2013 (4 awr 11 munud)

Roedd yr unigolyn cyffredin yng Nghymru wedi gwyllo 4 awr 11 munud o deledu wedi'i ddarlledu y dydd yn 2014¹⁰; 12 munud yn llai y dydd nag yn 2013 (Ffigur 1.14)¹¹. Dyma'r gostyngiad mwyaf sylweddol yn nifer y munudau o wyllo teledu yn flynyddol yng Nghymru ers 2010. Er hyn, mae unigolion yng Nghymru yn dal i wyllo llawer mwy o deledu ar gyfartaledd nag unigolion yn yr Alban (3 awr 59 munud), Gogledd Iwerddon (3 awr 47 munud) a'r DU drwyddi draw (3 awr 40 munud).

Ffigur 1.14 Munudau o deledu sy'n cael eu gwyllo bob dydd ar gyfartaledd, fesul gwlad: pob cartref



Ffynhonnell: BARB. Nodyn: Cyflwynwyd panel BARB newydd ar 1 Ionawr 2010. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ystyried data a gasglwyd cyn ac ar ôl newid y panel (gweler y llinell fylchog). Nodyn: Cyfrifir newidiadau canrannol o un flwyddyn i'r llall ar ddata i ddau le degol.

Roedd dros naw o bob deg unigolyn (93.5%) yng Nghymru yn gwyllo teledu bob wythnos yn 2014; 1.4 pwynt canran yn llai nag yn 2013


Ymhob un o'r gwledydd ac yn y DU drwyddi draw, roedd canran y bobl a oedd yn gwyllo'r teledu mewn wythnos arferol dros 90%. (Ffigur 1.15). Bob blwyddyn gostyngodd y cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (*average weekly reach*) yn yr holl wledydd, gan ostwng fwyaf yng Nghymru (o 1.4 pwynt canran). Er gwaethaf hyn, yng Nghymru y mae'r cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog uchaf o'i gymharu â'r gwledydd datganoledig eraill a'r DU drwyddi draw, ac mae hynny'n bod ers 2010.

¹⁰ Wrth ddadansoddi data BARB, rydym yn cyfeirio at wyllo rhaglenni adeg eu darlledu (yn fyw), unrhyw recordiau o'r rhaglenni hyn, ac os cânt eu gwyllo drwy wasanaeth dal-i-fyny'r darlledwr (e.e. BBC iPlayer) hyd at saith niwrnod wedyn.

¹¹ Mae'r cynnydd yn y gwyllo a welir yn Ffigur 1.14 a Ffigur 1.15 rhwng 2009-2010 ar draws rhai o ranbarthau ITV, fel Cymru, y Gogledd Ddwyrain ac ardal Gororau'r Alban (Border) o bosib yn gysylltiedig â newidiadau penodol i baneli rhanbarthol BARB a ddigwyddodd pan gyflwynwyd y panel BARB newydd ar 1 Ionawr 2010. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ystyried data a gasglwyd cyn ac ar ôl newid y panel (gweler y llinell fylchog).

Ffigur 1.15 Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog teledu, fesul gwlad

Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd yn ôl rhanbarth teledu: Cyfanswm teledu, Unigolion 4+ (15 mun+)




Ffynhonnell: BARB. Meini prawf cyrhaeddiad = 15 munud yn olynol o wyllo o leiaf unwaith mewn wythnos arferol. Defnyddiwyd wythnosau llawn. Nodyn: Cyflwynwyd panel BARB newydd ar 1 Ionawr 2010. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ystyried data a gasglwyd cyn ac ar ôl newid y panel (gweler y llinell fylchog).

Defnyddiodd bron i hanner yr holl oedolion yng Nghymru wasanaethau dal-i-fyny fel iPlayer, ITV Player ac All 4 yn 2015; 8 pwynt canran yn uwch nag yn 2014.

Dengys Ffigur 1.16 y newid o un flwyddyn i'r llall yn y defnydd o ddulliau gwyllo teledu anhraddodiadol yng Nghymru gan ddefnyddio *Traciwr Technoleg Ofcom*. Y tri dull o dan sylw yw: gwasanaethau dal-i-fyny (e.e. iPlayer, ITV Player, All 4), gwasanaethau tanysgrifio i gael fideos (e.e. Netflix, Amazon Instant) a recordwyr fideo personol (PVRs).

O'r holl oedolion yng Nghymru, dywedodd 48% eu bod wedi defnyddio gwasanaethau dal-i-fyny yn 2015, 8 pwynt canran o gynnydd ers yr un cyfnod yn 2014. Mae hyn yn debyg i'r defnydd o wasanaethau dal-i-fyny yn yr Alban (49%) a'r DU yn gyffredinol (48%), ac yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon (32%). Mae'r defnydd o wasanaethau tanysgrifio i gael fideos (14%) a recordwyr fideo personol (PVRs) (63%) yn debyg i gyfartaledd y DU.

Ffigur 1.16 Defnyddio gwasanaeth dal-i-fyny, gwasanaeth tanysgrifio i gael fideos a recordwyr fideo personol (PVRs) yng Nghymru



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, W1 2015

Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (DU 2014 = 3740, Cymru 2014 = 491; DU 2015 = 3756, Cymru 2015 = 496)

QH17 (QH46): Gan feddwl am eich defnydd personol chi o raglenni teledu a ffilmiau ar-lein ac am y gwasanaethau ar-alwad yr ydych efallai yn eu defnyddio ar unrhyw ddyfais (e.e. ffôn clyfar, set deledu, dyfais tabled neu liniadur) yn unrhyw le, pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio'n bersonol? QR1A-B: Oes gan eich cartref Sky+/ Virgin TiVo neu V+? QR1C-E: Ydy'ch blwch pen set Freesat / blwch Freeview neu set deledu Freeview / teledu band eang yn gadael i chi recordio a storio rhaglenni teledu, a hefyd yn gadael ichi stopio rhaglenni teledu byw am gyfnod a'u 'weindio' yn ôl? QR1F-G: Oes gennych chi flwch pen set YouView/ Now TV ?

Ymchwil defnyddwyr ar y gostyngiad yn y nifer sy'n gwyllo'r teledu mewn ffordd draddodiadol

Er mwyn deall yn well y gostyngiad yn y nifer sy'n gwyllo'r teledu yn y ffordd draddodiadol¹², a bennwyd drwy ddadansoddiad blaenorol BARB, comisiynydd Ofcom ymchwil omnibws ym mis Ebrill 2015. Cynhaliwyd yr ymchwil gan GfK NOP ymysg 1,878 o oedolion 16 oed a hŷn a oedd yn byw yn y DU, gyda chyfweliadau atgyfnerthu ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn gallu darparu adroddiad ar y gwledydd unigol¹³. Yn ystod yr ymchwil, cynhaliwyd 163 cyfweliad yn yr Alban, 99 cyfweliad yng Nghymru a 110 cyfweliad yng Ngogledd Iwerddon¹⁴.

¹² Mae gwyllo teledu yn y ffordd draddodiadol yn cyfeirio at raglenni teledu sy'n cael eu gwyllo'n fyw adeg eu darlledu ar y teledu.

¹³ Dim ond atgyfnerthiad oedd ei angen yng Ngogledd Iwerddon, gan fod meintiau'r samplau yn y gwledydd eraill yn ddigon yn y prif sampl.

¹⁴ Adroddir ar y prif gyfweliadau a chyfweliadau atgyfnerthu Gogledd Iwerddon gyda'i gilydd fel sampl o fewn CMR y gwledydd. Ond nid yw cyfweliadau atgyfnerthu Gogledd Iwerddon wedi'u cynnwys yn sampl cyffredinol y DU.

Roedd yr ymchwili yn gofyn i ddefnyddwyr nodi pa weithgareddau clyweledol yr oeddynt yn gwneud mwy neu lai ohonynt, o'i gymharu â blwyddyn yn ôl¹⁵. Pwrpas hyn oedd rhoi syniad o'r newidiadau mewn ymddygiad ar draws wahanol nodweddion e.e. pa sgrin a ddefnyddir (teledu neu arall), ble mae'r gwyllo'n digwydd (gartref neu rywle arall), traddodiadol neu anhraddodiadol (e.e. adeg darlledu neu drwy wasanaeth dal-i-fyny, recordio'n bersonol, tanysgrifiad ar-alwad neu talu i wyllo), a'r cynnwys sy'n cael ei wyllo (e.e. rhaglenni BBC/ITV/UTV/STV/Channel 4 neu Five, clipiau byr, ffilmiau, cyfresi). Gan fod byrfoddau'n cael eu defnyddio yn yr adran hon, dangosir geiriad llawn y cwestiynau a'r rhestr gweithgareddau y gofynnwyd amdanynt ar ddiwedd yr adran.

Canfu'r ymchwili fod cynnydd yn y defnydd o ddulliau gwyllo anhraddodiadol: gwasanaethau dal-i-fyny heb danysgrifio, gwyllo cynnwys wedi'i recordio a gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad.

Dengys Ffigur 1.17 y newidiadau honedig mewn gweithgareddau clyweledol penodol ymysg ymatebwyr yn y gwledydd a'r DU drwyddi draw, tra mae Ffigur 1.18 yn dangos y canfyddiadau ehangach ar gyfer Cymru yn fwy manwl.

Yn y DU yn gyffredinol, nododd yr ymchwili fod pobl yn dweud eu bod yn gwyllo llai ar deledu mewn ffyrdd traddodiadol (h.y. adeg darlledu'r cynnwys) a hefyd yn gwyllo llai drwy gyfrwng y teledu dros y flwyddyn flaenorol. Ochr yn ochr â hyn, roedd yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn gwyllo mwy o deledu drwy ddulliau anhraddodiadol h.y. gwelwyd bod mwy yn gwyllo gwasanaeth dal-i-fyny heb danysgrifio, gwyllo cynnwys wedi'i recordio'n bersonol ganddynt, a defnyddio gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad (gweler Ffigur 1.17).

Roedd ymatebwyr yng Nghymru hefyd yn dweud eu bod, at ei gilydd, yn gwyllo llai o deledu drwy ddulliau traddodiadol. Dywedodd wyth y cant eu bod yn gwyllo mwy adeg darlledu'r cynnwys ym mis Ebrill 2015 nag yn y flwyddyn flaenorol, tra dywedodd 27% eu bod yn gwyllo llai, sef newid net o -19%.

Nodai'r ymchwili fod pobl yng Nghymru hefyd yn dweud eu bod yn gwyllo mwy o deledu drwy ddulliau anhraddodiadol. Roedd yr enillion net yn +40% ar gyfer gwyllo gwasanaeth dal-i-fyny heb danysgrifio, +18% ar gyfer gwyllo cynnwys wedi'i recordio'n bersonol a dywedodd +13% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio gwasanaethau tanysgrifio ar-alwad.

Fel cyd-destun i'r canfyddiadau uchod, mae'n werth nodi bod y gostyngiad a oedd yn cael ei honni yn y gwyllo traddodiadol (h.y. gwyllo adeg ei ddarlledu), gwyllo drwy set deledu a gwyllo teledu PSB yn is na'r gostyngiadau a nodwyd ar gyfer gwyllo DVDs (colled net o -30% yng Nghymru) a mynd i'r sinema (-35% yng Nghymru) dros yr un cyfnod (gweler Ffigur 1.18). Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn y DU yn gyffredinol.

Roedd Cymru yn wahanol i'r tueddiadau cyffredinol yn y DU o ran newidiadau mewn gwyllo drwy sgriniau penodol, a lleoliad y gwyllo. Yn y DU yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwyllo llai o gynnwys drwy set deledu na blwyddyn yn ôl. Yng Nghymru dywedodd 29% eu bod yn gwyllo mwy o gynnwys drwy'r set deledu, a dywedodd 14% eu bod yn gwneud llai (felly roedd y newid net yn +15%)¹⁶.

¹⁵ Roedd yr ymchwili yn pennu barn yr ymatebwyr eu hunain am y newidiadau yn eu patrwm gwyllo ac ymddygiadau cysylltiedig. Ond nid yw'n dangos *maint* y newid e.e. cynnydd neu ostyngiad yn y munudau gwyllo.

¹⁶ Dylid nodi bod yr ymchwili yn seiliedig ar ddata wedi'i hunan-gofnodi ac mae'n nodi barn bersonol yr ymatebwyr am newidiadau yn eu patrwm gwyllo a'r ymddygiad cysylltiedig. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys data arall sy'n cadarnhau'r cynnydd hwn a hunangofnodwyd gan yr ymatebwyr yn y gwyllo drwy'r set deledu yng Nghymru yn 2015.


Yn y DU yn gyffredinol, ni chofnodwyd fawr o newid yn lleoliad y gwyllo. Ond roedd ymatebwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwyllo mwy yn y cartref (newid net o +12%) a hefyd y tu allan i'r cartref (+7%) nag yr oeddynt yn ei wneud flwyddyn yn ôl.

Ffigur 1.17 Newidiadau honedig mewn gweithgareddau clyweledol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf (%), fesul gwlad

		Newid net				
		Y DU (1878)	Lloegr (1568)	Yr Alban (163)	Cymru (99)	Gogledd Iwerddon (110)
Sgrin	Gwyllo ar set deledu	-7%	-7%	-6%	+15%	-10%
	Gwyllo ar sgriniau eraill	+13%	+13%	+16%	+25%	+23%
Man gwyllo	Gartref	0	-2%	+6%	+12%	+2%
	Allan o'r cartref	-4%	-6%	0	+7%	+7%
Gwyllo mewn ffordd draddodiadol neu anhraddodiadol	Amser darlledu	-19%	-17%	-34%	-19%	-25%
	Wedi ei recordio'n bersonol	+13%	+11%	+24%	+18%	+32%
	Dal-i-fyny/ar-alwad	+26%	+23%	+36%	+40%	+39%
	Gwasanaethau ar-alwad y tanysgrifir iddynt e.e. Netflix	+8%	+7%	+15%	+13%	+22%
	Talu-i-wyllo	-3%	-3%	-3%	-2%	+4%
Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus	Gwyllo rhaglenni BBC, ITV/STV/UTV, C4, Five	-6%	-5%	-3%	-9%	-28%

Ffynhonnell: GfK NOP omnibus, Ebrill 2015. Sail: Pob oedolyn (1878). Geiriad y cwestiwn: QA, Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau canlynol, dywedwch a ydych yn gwneud mwy o hyn, yr un faint neu lai o hyn o'i gymharu â blwyddyn yn ôl? Mae hwn yn rhoi r 'enillion net' neu'r 'golled net' ar gyfer gweithgaredd. Er enghraifft, os dywedodd 20% o ymatebwyr eu bod yn gwneud mwy o'r gweithgaredd a 5% yn dweud eu bod yn gwneud llai, yr enillion net fyddai +15% yn gwneud mwy o'r gweithgaredd.

Ffigur 1.18 Newidiadau honedig mewn gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf (%), Cymru



Ffynhonnell: GfK NOP omnibus, Ebrill 2015. Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn yng Nghymru (99). Geiriad y cwestiwn: QA, Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau canlynol, dywedwch a ydych yn gwneud mwy o hyn, yr un faint neu lai o hyn o'i gymharu â blwyddyn yn ôl?

Omnibws Ofcom: geiriad cwestiynau'r ymchwil

Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau canlynol, rydw i'n darllen yn uchel allwch chi ddweud a ydych chi'n gwneud mwy o hyn, yr un faint o hyn neu lai o hyn o'i gymharu â blwyddyn yn ôl? Os nad ydych chi wedi gwneud y gweithgaredd o gwbl, dywedwch wrtha i. Y SAWL SY'N CYFWELD: DARLLENWCH BOB DATGANIAD YN UNIGOL UN COD AR GYFER POB DATGANIAD.

Sgrin

- Defnyddio set deledu i wyllo unrhyw raglenni/ffilmiau/clipiau h.y. gwyllo unrhyw raglenni /ffilmiau/clipiau drwy ddefnyddio unrhyw wasanaeth (e.e. Freeview, Sky, Netflix, BBC iplayer, drwy gonsol gemau ayb)
- Defnyddio sgriniau eraill i wyllo unrhyw raglenni/ffilmiau/clipiau e.e. cyfrifiaduron personol, dyfeisiau tabled, ffonau clyfar (heblaw am set deledu)

Lleoliad

- Gwyllo'r teledu, clip neu raglen yn eich cartref eich hun (e.e. ar deledu, cyfrifiadur personol, dyfais tabled, ffôn clyfar)
- Gwyllo'r teledu, clip neu raglen allan o'r cartref (ar unrhyw sgrin e.e. teledu, cyfrifiadur, dyfais tabled, ffôn clyfar)

Gwyllo'r teledu mewn ffordd draddodiadol neu anhraddodiadol

- Gwyllo rhaglenni teledu pan maent yn cael eu darlledu ar y teledu (e.e. gwyllo EastEnders pan mae'n cael ei ddangos ar BBC1 am 7.30pm neu wyllo Game of Thrones am 9pm ar Sky Atlantic pan mae'n cael ei ddarlledu)
- Gwyllo rhywbeth ar y teledu rydych chi eich hun wedi'i recordio, h.y. ar ôl ei recordio ar fflwch ar ben y teledu, neu PVR
- Gwyllo unrhyw deledu 'dal-i-fyny' neu ar-alwad pan rydych chi'n gwyllo rhaglenni/ffilmiau sydd wedi cael eu dangos ar y teledu'n ddiweddar (drwy wasanaethau fel BBC iplayer, itv player, 4OD, SkyGo, Virgin Catch-up ayb).
- Gwyllo rhaglenni/ffilmiau drwy wasanaethau ar-alwad rydych chi'n talu tansgrifiad misol ar eu cyfer, er enghraifft Netflix, Amazon Prime, Now TV ayb
- Talu i wyllo rhaglenni/ffilmiau unigol e.e. ffilmiau drwy wasanaeth Sky Box Office neu 'dal' am bob ffilm' gyda Virgin Movies

PSB

- Gwyllo rhaglenni BBC, ITV/STV/UTV, Channel 4 neu Five yn benodol (drwy unrhyw sianel, unrhyw sgrin ac unrhyw bryd)

Cynnwys

- Gwyllo clipiau byr e.e. clipiau ar Youtube neu wedi'u cysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook
- Gwyllo cyfresi neu setiau o raglenni mewn unrhyw ffordd, e.e. ar y teledu, ar ddyfais tabled, ar DVD, Netflix ayb
- Gwyllo ffilmiau (drwy unrhyw wasanaeth, e.e. Netflix, Now TV, DVDs naill ar eich set deledu, eich cyfrifiadur neu'ch ffôn clyfar)

Rhyngwladol

- Gwyllo sianeli rhyngwladol drwy wasanaethau lloeren o wledydd eraill e.e. Hotbird, Turksat, Hellas Sat, Hispasat, Canal+, Cyfra.
- Gwyllo rhaglenni/ffilmiau drwy wasanaethau fideo rhyngwladol ar-lein o wledydd eraill, e.e. RTE Player, Hulu, My TF1, nc+

Gweithgareddau eraill

- Gwyllo DVDs
- Mynd i'r sinema i wyllo ffilmiau
- Chwarae gemau ar gonsol, cyfrifiadur, tabled neu ffôn clyfar ayb
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, ayb
- Mynd allan a chymdeithasu

1.5 Dadansoddiad o wasanaethau cyfathrebu yn Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam

Cyflwyniad

Mae Ofcom wedi comisiynu data ymchwil oddi wrth Arolwg Poblogaeth Prydain i ymchwilio i wasanaethau cyfathrebu ar lefel fanylach yng Nghymru. Y trefi a'r dinasoedd sydd wedi'u cynnwys yw Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Aberystwyth a Wrecsam. Bydd y dinasoedd hyn yn cael eu cymharu â'i gilydd ac â Chymru o ran faint sy'n manteisio ar wasanaethau rhyngwyd, ffonau symudol a llinellau sefydlog.

Methodoleg

Mae Arolwg Poblogaeth Prydain yn holi defnyddwyr am wasanaethau cyfathrebu; mae'n cynnwys oddeutu 2,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb yn y cartref gydag oedolion (dros 15 oed) bob wythnos, sy'n caniatáu dadansoddiad rhanbarthol ac is-ddemograffig manwl.

Gan ddefnyddio data o'r Arolwg (Ionawr 2014 i fis Mawrth 2015), cynhaliwyd gwaith dadansoddi ar Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Y diffiniad o bob dinas yw'r ardal sydd o dan reolaeth cyngor y ddinas. Ar gyfer trefi llai, diffinnir y ffin fel yr holl unigolion sy'n byw mewn cod post sy'n dod o dan y dref honno ac sydd hefyd yn cael ei hystyried yn ardal drefol. Er enghraifft, diffinnir Wrecsam fel yr holl godau post trefol yn y codau LL11-LL14.

Roedd y seiliau ar gyfer y trefi a'r dinasoedd yng Nghymru fel a ganlyn: Cymru 4812; Caerdydd 183; Abertawe 208; Casnewydd 292; Wrecsam 201 ac Aberystwyth 146. Nid yw Arolwg Poblogaeth Prydain yn ceisio bod yn gynrychiadol ar lefelau isel iawn, ac efallai na fydd samplau o dref neu ddinas benodol yn cyfateb i union broffil y dref honno. Yn Aberystwyth, roedd 47% o'r sampl yn fyfyrwyr, gan fod prifysgol fawr yn y dref. Cafodd y

dadansoddiad ei ailwneud heb gynnwys y myfyrwyr er mwyn ceisio cynrychioli'r dref yn well. Lle y mae presenoldeb myfyrwyr yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau Aberystwyth, bydd yn cael ei nodi.


Dewiswyd y dinasoedd hyn yn rhannol er mwyn cynnwys dinasoedd yng Ngogledd a De Cymru ac yn rhannol oherwydd mae'r gwaith dadansoddi wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd hynny lle mae gan Arolwg Poblogaeth Prydain sampl ddigon mawr.

Mae Arolwg Poblogaeth Prydain yn defnyddio methodoleg wahanol i *Draciwr Technoleg Ofcom*, o ran bod cwotas a geiriad y cwestiynau yn wahanol. Felly nid yw gwahaniaethau rhwng ffigurau'r Arolwg ac Ofcom yn annisgwyl nac yn achos pryder. Mae cwestiynau'r Arolwg hefyd yn cynnwys termau gwahanol i rai Ofcom; e.e. defnyddio 'web-enabled phone' yn hytrach na 'smartphone'.

Proffil Cymru a phob un o'r trefi a'r dinasoedd yn y dadansoddiad

Mae proffil y samplau yn Abertawe ac Aberystwyth gryn dipyn yn iau na'r dinasoedd eraill, a Chymru drwyddi draw (Ffigur 1.19). Y rheswm am hyn yn Aberystwyth yw'r boblogaeth fawr o fyfyrwyr yno. Mae gan Gasnewydd a Wrecsam broffil poblogaeth hŷn; mae 66% o boblogaeth Casnewydd a 63% o boblogaeth Wrecsam dros 45 oed o'i gymharu â 59% yng Nghymru drwyddi draw.

Ffigur 1.19 Proffiliau oedran Cymru, Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Oherwydd presenoldeb y brifysgol, mae gan Aberystwyth ganran uwch o bobl yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C1, gan fod myfyrwyr amser llawn wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn (Ffigur 1.20). Gan Gaerdydd y mae'r samplau mwyaf difreintiedig sy'n cael eu hystyried, gyda 46% yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol DE. Yn Abertawe a Chasnewydd y mae'r samplau mwyaf cyfoethog, gyda 73% yn Abertawe a 78% yng Nghasnewydd yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1.

Ffigur 1.20 Proffiliau economaidd-gymdeithasol Cymru, Aberystwyth, Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Gwahaniaethau demograffig eraill

Mae lefel diweithdra yn uwch yng Nghaerdydd nag yn y dinasoedd eraill a Chymru yn gyffredinol. Mae tri deg a chwech y cant o'r sampl yng Nghasnewydd wedi ymdeol, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 30%. Caerdydd yw'r ddinas mwyaf ethnig amrywiol o'r dinasoedd, gydag 16% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn dod o leiafrif ethnig, o'i gymharu â 2% ar draws Cymru yn gyffredinol.


Mae gan Gaerdydd ac Aberystwyth brifysgolion mawr, ac mae eu samplau yn cynnwys llawer mwy o fyfyrwyr na chyfartaledd Cymru (12% ar gyfer Caerdydd a 47% ar gyfer Aberystwyth). Oherwydd hyn efallai, mae gan y dinasoedd hyn fwy na'r cyffredin o ymatebwyr (21% a 44%) sy'n byw mewn llety rhent preifat. Mae gan Wrecsam (28%) a Caerdydd (31%) fwy na chyfartaledd Cymru (17%) o bobl yn byw mewn llety awdurdod lleol neu gymdeithas dai.

Mae cofio am y gwahaniaethau hyn rhwng y dinasoedd yn ddefnyddiol, gan fod oed unigolion, cyfoeth, lefel addysg a chyfnod bywyd yn effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau cyfathrebu a'r defnydd ohonynt. Byddwn yn cofio hyn wrth ystyried y gwahaniaethau rhwng y dinasoedd.

Yng Nghaerdydd y manteisir leiaf ar wasanaethau symudol a llinell sefydlog

Ledled Cymru, mae 79% o unigolion yn byw mewn cartref sydd â llinell sefydlog (Ffigur 1.21). Ymatebwyr Caerdydd sydd lleiaf tebygol o fod â llinell sefydlog (71%); mae'r rheini sy'n byw yn y dinasoedd eraill yn fwy tebygol na chyfartaledd Cymru o fod ag un. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr yn Aberystwyth; os cânt eu cynnwys, dim ond 62% o bobl yn Aberystwyth sydd â llinell sefydlog.

Ffigur 1.21 Y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau llinell sefydlog yn nhrefi a dinasoedd Cymru




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Cwestiwn: Oes gennych chi ffôn llinell sefydlog?

Ac eithrio Caerdydd, mae'r nifer sy'n manteisio ar unrhyw fath o ffôn symudol yn uwch yn yr holl drefi a dinasoedd na chyfartaledd Cymru (Ffigur 1.22). Mae ffonau clyfar yn fwy cyffredin yng Nghasnewydd (76%) ac Aberystwyth (75%) nag yn y dinasoedd eraill a Chymru drwyddi draw (59%). Y rheswm am y niferoedd uchel yn Aberystwyth yw'r boblogaeth myfyrwyr.

Ffigur 1.22 Y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau telefoni symudol mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Cwestiwn: Oes gennych chi ffôn symudol?

Cwestiwn: Oes gennych chi ffôn sy'n gallu defnyddio'r we?


Mae Freesat yn fwy cyffredin yng Ngogledd Cymru

Mae gan dros naw o bob deg (94%) o boblogaeth Cymru fynediad i deledu yn y cartref (Ffigur 1.23). Mae gan fwy o bobl yn Abertawe (96%) a Wrecsam (99%) deledu yn y cartref.

Mae'r defnydd o wasanaethau teledu drwy dalu yn is na'r cyfartaledd yng Nghaerdydd (47%) ac Aberystwyth (heb gynnwys myfyrwyr) (27%). Mae gan Abertawe a Wrecsam fwy o gartrefi sydd ag o leiaf un teledu Freeview neu Freesat (70% ar gyfer y ddwy). Mae gwasanaethau lloeren di-dâl yn fwy cyffredin yn ninasoedd Wrecsam (10%) ac Aberystwyth

(8%) yng Ngogledd Cymru, sy'n adlewyrchu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth DTV bob amser yn dda yno¹⁷.

Ffigur 1.23 Y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau teledu mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Cwestiwn: A oes teledu yn y cartref?

Cwestiwn: A oes teledu lloeren/cebl/Freeview neu Freesat yn eich cartref?


Mae mynediad i fand eang cebl yn brin yng Ngogledd Cymru

Mae gan dros bedwar o bob bump (85%) o boblogaeth Cymru ryw fath o fynediad i'r rhyngwrwyd. Mae mynediad i'r rhyngwrwyd yn fwyaf cyffredin yn Abertawe (96%) ac Aberystwyth (97%), ac yn lleiaf cyffredin yng Nghaerdydd (79%). Mae gan saith deg y cant o unigolion yng Nghymru fynediad i'r rhyngwrwyd gartref, er fod hyn yn fwyaf cyffredin yn Abertawe (88%).

Yn Ne Cymru yn bennaf y ceir darpariaeth cebl. Mae gan rhwng 22% a 52% o gartrefi yn ninasoedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn y De fand eang cebl. Ond, mae'n is yn Wrecsam (1%) a dim band eang cebl yn Aberystwyth. Yn yr ardaloedd heb wasanaeth cebl, band eang drwy xDSL yw'r unig opsiwn (mae hwn yn cynnwys band eang dros ADSL, a gwasanaethau ffibr).

¹⁷ <http://maps.ofcom.org.uk/dtt/> ar gyfer y ddarpariaeth DTV

Ffigur 1.24 Y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau rhyngwrwd mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15 oed a hŷn (Cymru 5287, Aberystwyth 146, Caerdydd 196, Casnewydd 292, Abertawe 208 a Wrecsam 211)

Cwestiwn: Pa un o'r rhain sy'n disgrifio orau pa mor aml y byddwch yn defnyddio'r rhyngwrwd?

Cwestiwn. A sut ydych chi'n cael mynediad i'r rhyngwrwd?


Cwestiwn. Ydy'ch mynediad i'r rhyngwrwd gartref drwy fand eang cebl, band eang ADSL, mae gennych fynediad i fand eang ond ddim yn gwybod y math?

Mae gwasanaethau trafodion ar-lein, fel bancio, yn llai cyffredin yng Nghaerdydd nag yn y trefi a dinasoedd eraill

Mae defnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer trafodion (prynu nwyddau a bancio) yn fwy cyffredin yn Abertawe, Casnewydd ac Aberystwyth nag yng Nghymru drwyddi draw (Ffigur 1.25). Yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberystwyth, mae pobl yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau VoIP.

Mae pobl yn Abertawe yn fwy tebygol o lawrlwytho unrhyw fath o gynnwys (teledu, ffilm a cherddoriaeth) na phobl yng ngweddill Cymru. Os yw myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn Aberystwyth, mae'r ffigur yn uwch ar gyfer lawrlwytho cerddoriaeth, ffilmiau a rhaglenni teledu. Os nad yw myfyrwyr yn cael eu cynnwys, mae canlyniadau Aberystwyth yn dangos bod pobl yn fwy tebygol na phobl gweddill Cymru o lawrlwytho cynnwys teledu, ond nid cerddoriaeth a ffilm. Mae ymatebwyr o Gaerdydd yn fwy tebygol na'r rheini yng Nghymru drwyddi draw i lawrlwytho cerddoriaeth a ffilmiau.

Ffigur 1.25 Defnyddio gwasanaethau rhyngrywd mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Prydain

Sail: Pob oedolyn 15+ sydd â mynediad i'r rhyngrywd (Cymru 3460, Aberystwyth 137, Caerdydd 139, Casnewydd 225, Abertawe 161a Wrecsam 175)

Cwestiwn: Pa rai o'r canlynol rydych wedi'u gwneud yn ystod y tri mis diwethaf?

1.6 Y niferoedd sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu allweddol ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg

Cyflwyniad

Yn dilyn Arolwg *Traciwr Technoleg* Ofcom (Ionawr - Chwefror 2015), rydym wedi gwneud rhywfaint o waith dadansoddi yng nghyswllt yrheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl a heb fod yn rhugl), gan edrych ar eu defnydd o ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu allweddol.


Mae Ffigur 1.26 yn dangos proffil demograffig y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg ac yn cymharu hwn â'r holl sampl o Gymru. Yn dilyn hyn, mae Ffigur 1.27 yn dangos y defnydd o ddyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu allweddol ymysg oedolion yn yr is-grŵp hwn.

Nodyn am ein hymchwil arolwg

Cofiwch, oherwydd bod maint y seiliau'n isel, mae'r holl ganfyddiadau yn ddangosol ac felly dylid eu trin â gofal. Bwriadwyd sampl y *Traciwr Technoleg* yng Nghymru i gynrychioli poblogaeth Cymru gyfan, ac felly nid yw'n gynrychioliadol o'r rheini sy'n siarad a/neu'n ysgrifennu Cymraeg.

Mae Ffigur 1.26 yn cymharu'r rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg â holl oedolion Cymru. Yn 2015, mae incwm blynyddol aelwydydd y rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn cymharu ag incwm holl oedolion Cymru, ac maent yn fwy tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1 (61% o'i gymharu â 48%) Hefyd, mae siaradwyr/ysgrifennwyr Cymraeg yn fwy tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod yn byw mewn ardaloedd gwledig (33% o'i gymharu â 22%). Maent hefyd yn fwy tebygol o fod â phroffil demograffig hŷn (24% 16-34 oed o'i gymharu â 39% 55+ oed).

Ffigur 1.26 Proffil demograffig y rheini sy'n siarad neu sy'n ysgrifennu Cymraeg



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Ton 1 2015

Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn: 496 Cymru, 138 yn gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl)

Y niferoedd ymysg y rheini sy'n gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu

Mae Ffigur 1.27 yn dangos bod y rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn 2015 gryn dipyn yn fwy tebygol na'r holl oedolion yng Nghymru o fod â llinell sefydlog gartref (93% o'i gymharu â 83%), neu set radio DAB gartref (53% o'i gymharu â 39%). Ond, mae'r ymatebwyr hyn gryn dipyn yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhynggrwyd (drwy unrhyw ddull) gartref (76% o'i gymharu â 86%), ac yn llai tebygol o fod â mynediad i'r rhynggrwyd drwy ffôn clyfar yn unig (2% o'i gymharu â 7%).

Fel gyda'r cynnydd ar gyfer yr holl oedolion yng Nghymru ers 2014, yn 2015 mae'r rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn berchen ar ddyfais tabled (59% o'i gymharu â 38% yn 2014), ac i fod â gwasanaeth teledu drwy dalu ar eu prif set deledu (70% o'i gymharu â 54% yn 2014). Er nad oes newid wedi bod ers 2014 ymysg yr holl oedolion yng Nghymru, mae'r rheini sy'n siarad neu'n ysgrifennu Cymraeg yn awr yn fwy tebygol o fod yn berchen ar set radio DAB (53% o'i gymharu â 26% yn 2014).

Ffigur 1.27 Y nifer sy'n defnyddio dyfeisiau a gwasanaethau cyfathrebu yng Nghymru

	Cymru (cyfanswm)	Ymatebwyr sy'n siarad Cymraeg neu'n ysgrifennu yn Gymraeg
Llinell Sefydlog	83%	93% ↑
Ffôn symudol (defnydd personol)	90%	85%
Ffôn clyfar (defnydd personol)	63%	58%
Cyfrifiadur (unrhyw fath)	84%	77%
Cyfrifiadur tabled yn y cartref	60%	59%
Cyfanswm - Rhyngrwyd	86%	76% ↓
Band eang (sefydlog a symudol)	78%	73%
Band eang sefydlog	77%	72%
Rhyngrwyd symudol	59%	55%
Mynediad i'r rhyngrwyd gyda ffôn clyfar yn unig	7%	2% ↓
Radio DAB	39%	53% ↑
Teledu drwy Dalu ar y brif set	69%	70%
Bwndel	67%	67%

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Ton 1, 2015.

Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn: 496 Cymru, 138 yn gallu siarad neu ysgrifennu Cymraeg (rhugl neu heb fod yn rhugl)

↑↓ - mae'r rhain yn dangos cynnydd/gostyngiad sylweddol wrth gymharu â Chymru drwyddi draw ar y lefel hyder 95%.

Nodyn: Rhyngrwyd symudol - mynediad gan ddefnyddio ffôn symudol neu ffôn clyfar, drwy rwydwaith WiFi neu rwydwaith symudol y ffôn.